# Ymgynghoriad ar y Bil arfaethedig – Bil Addysg Awyr Agored (Cymru)

Mai 2023

Sam Rowlands AS

## Cynnwys

**1. Cyflwyniad....3**

**2. Y prif negeseuon ....3**

**3. Pwy ymatebodd i'r ymgynghoriad? ....6**

**4. Y prif egwyddorion sy'n sail i'r cynnig (Cwestiynau 1,3,4,9)....8**

Pa mor bwysig yw addysg awyr agored i addysg a datblygiad cyffredinol plant a phobl ifanc? (C1) ....8

A ddylai plant a phobl ifanc gael cyfle sicr i gymryd rhan mewn profiad addysg breswyl yn yr awyr agored ar ryw adeg yn ystod eu blynyddoedd ysgol, os dymunant? (C3) ....10

A ddylai cyfle i gymryd rhan mewn profiad addysg breswyl yn yr awyr agored, ar ryw adeg yn ystod eu blynyddoedd ysgol, fod yn rhad ac am ddim ar un achlysur i ddisgyblion? (C4) ....11

Ydych chi'n cytuno bod angen deddfwriaeth i sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn cael cyfle i gael profiad addysg breswyl yn yr awyr agored, ar ryw adeg yn ystod eu blynyddoedd ysgol? (C9) ....12

**5. Crynodeb o farn y rhai nad ydynt yn cefnogi'r prif egwyddorion sy'n sail i'r cynigion....14**

**6. Y prif fanteision (C2)....22**

Beth yw'r prif fanteision i blant a phobl ifanc o gael profiad o addysg breswyl yn yr awyr agored? ....22

**7. Y prif rwystrau ar hyn o bryd (C5)....25**

Beth yw'r prif rwystrau sydd, yn eich barn chi, yn bodoli ar hyn o bryd i blant a phobl ifanc rhag cael mynediad i brofiadau addysg breswyl yn yr awyr agored? 25

Yr holl ymatebion (168 o ymatebion gyda'r rhain yn dewis cyfanswm o 500 o opsiynau o rwystrau o'r rhestr a ddarparwyd) ... 25

Rhwystrau eraill a nodwyd ... 27

**8. Yr oedran mwyaf addas (C7) ... 29**

Yn eich barn chi, pa oedran sydd fwyaf addas i blant a phobl ifanc gael cynnig cyfle i ymgymryd â phrofiad addysg breswyl yn yr awyr agored? ... 29

Esboniad o'r atebion: 65 o ymatebion ar-lein ... 30

Esboniad o'r atebion: 3 ymateb drwy e-bost ... 32

Crynodeb ... 32

**9. Yr hyd mwyaf addas (C8) ... 33**

Ai pedair noson/pum diwrnod yw'r hyd gorau ar gyfer profiad awyr agored preswyl? ... 33

Esboniad o'r atebion: 150 o ymatebion ... 33

Crynodeb ... 36

**10. Ystyriaethau cydraddoldeb (C6) ... 37**

A allai'r Bil arfaethedig gael unrhyw effaith cadarnhaol ar rai plant a phobl ifanc yn arbennig? Os felly, pwy a pham? ... 37

A allai'r Bil arfaethedig gael unrhyw effaith negyddol ar rai plant a phobl ifanc yn arbennig? Os felly, pwy a pham? Beth allai'r Bil hwn ei wneud i liniaru unrhyw effeithiau negyddol? ... 38

**11. Sylwadau ychwanegol (C10) ... 41**

O blaid ac yn erbyn ... 41

Materion i'w hystyried ... 41

# 1. Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn crynhoi'r ymateb i'r ymgynghoriad ar Fil arfaethedig Sam Rowlands AS, Bil Addysg Awyr Agored (Cymru) (y Bil), a gynhaliwyd rhwng 31 Ionawr a 17 Mawrth 2023.

Cafwyd ymatebion gan **175 o sefydliadau ac unigolion**. Gellir gweld rhagor o fanylion am y rhai a ymatebodd yn Adran 3 y crynodeb hwn.

Ni fwriedir i'r ddogfen hon fod yn gofnod hollgynhwysfawr o bob sylw a ddaeth i law. Mae'n crynhoi'r materion allweddol a godwyd sy'n canolbwyntio'n uniongyrchol ar amcanion polisi y Bil arfaethedig. Gellir gweld sylwadau llawn yr ymatebwyr yn y dogfennau tystiolaeth a gyflwynwyd ganddynt.

# 2. Y prif negeseuon

Ceir **lefel sylweddol iawn o gefnogaeth i'r egwyddorion** sy'n sail i'r cynnig:

- Mae pawb a ymatebodd yn cytuno bod addysg awyr agored yn bwysig i addysg a datblygiad cyffredinol plant a phobl ifanc (dywedodd 94% eu bod yn 'Bwysig iawn').
- Mae'r mwyafrif llethol yn credu y dylai fod cyfle sicr i gymryd rhan mewn addysg awyr agored breswyl (dim ond 3% a ddywedodd 'Na').
- Mae mwyafrif mawr (85%) yn credu y dylai'r cyfle sicr hwn fod yn rhad ac am ddim o leiaf unwaith (6% yn dweud 'Na', 9% yn dweud 'Ddim yn gwybod').
- Mae 84% yn cytuno â'r angen am y Bil (9% yn anghytuno, 7% yn niwtral).

Roedd 11 o blith y 175 o ymatebwyr **(6%) yn anghytuno â'r egwyddorion** sy'n sail i'r cynnig. Roedd 7 o'r rhain yn benaethiaid, tra bo un arall yn undeb, sef Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon (NAHT). Rhoddodd y rhai a oedd yn anghytuno y **rhesymau** a ganlyn yn bennaf (Mae adran 5 o'r briff hwn yn crynhoi'r rhain yn llawnach):

- Pryder y bydd cyllid yn cael ei ddargyfeirio i ffwrdd o gyllidebau craidd ysgolion, y credant ddylai fod yn flaenoriaeth i unrhyw wariant sydd ar gael ar gyfer addysg.

- Goblygiadau staffio os yw hyn yn cael ei wneud yn statudol - bod â niferoedd digonol o staff ysgol i hebrwng disgyblion a'r effaith a'r pwysau ar y rhai sy'n fodlon mynd.
- Pryderon na fydd ysgolion yn derbyn arian ar gyfer costau llawn y gofynion staffio – p'un ai i dalu goramser i'r rhai sy'n goruchwylio ymweliadau neu i ganfod staff i gyflenwi yn ystod eu habsenoldeb.

Y **manteision a nodwyd amlaf** o brofiad preswyl yn yr awyr agored oedd mwy o hyder ac annibyniaeth a sgiliau gwaith tîm gwell; iechyd a lles gwell; a chysylltiadau cadarnhaol â'r amgylchedd naturiol, a dealltwriaeth ohoni.

Y **rhwystr a nodwyd amlaf ar hyn o bryd** i blant a phobl ifanc gael mynediad i addysg awyr agored preswyl yw cyfyngiadau ariannol. Rhwystrau eraill a nodwyd yn aml oedd pryder/ansicrwydd ymysg y rheini a'r plant.

Er bod tua hanner yr ymatebion yn cytuno â'r dewis a roddwyd yn y cwestiwn mai Blwyddyn 6 oedd yr oedran mwyaf addas, roedd **arwydd eithaf cryf nad oes oedran gorau**, ei fod yn dibynnu ar sawl ffactor a'i bod yn well **peidio â rhagnodi oedran o bosibl.**.

Yn yr un modd, er bod tua hanner yr ymatebion yn cytuno â'r dewis a roddwyd yn y cwestiwn o bedair noson/pum niwrnod, cafwyd **arwydd eithaf cryf fod hyd mwyaf addas yr arhosiad yn dibynnu ar sawl ffactor ac mai'r peth gorau efallai fyddai peidio â rhagnodi** hyd y profiadau.

Pan ofynnwyd i'r ymatebwyr nodi **pa grwpiau o blant allai elwa'n arbennig** o'r cynnig, tynnwyd sylw at bwysigrwydd sicrhau ansawdd a mynediad i bawb. Gwnaethant nodi plant a phobl ifanc o gefndiroedd difreintiedig yn benodol, y rhai ag Anghenion Dysgu Ychwanegol neu anableddau, lleiafrifoedd ethnig a'r rhai sy'n profi trafferthion mewn amgylchedd ystafell ddosbarth draddodiadol.

Pan ofynnwyd iddynt nodi **pa grwpiau o blant allai gael eu heffeithio'n negyddol** gan y cynnig, nododd yr ymatebwyr blant sy'n dioddef o orbryder gan amlaf. Roedd hyn hefyd yn ymestyn i blant y gallai eu rhieni fod yn bryderus ynghylch eu plentyn yn mynychu ymweliad preswyl. Amlygwyd mesurau cymorth priodol, a allai gynnwys staff ychwanegol i gefnogi plant, fel rhai hanfodol i helpu plant sy'n bryderus. Serch hynny, mae hawl rhieni a phlant i optio allan o addysg awyr agored breswyl yn cael ei ystyried yn bwysig. Yn ogystal â phlant sy'n dioddef o orbryder, nodwyd y byddai disgyblion sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol neu anableddau yn cael eu heffeithio'n negyddol o bosibl, naill ai os nad yw cynwysoldeb yn rhan annatod o'r ymweliadau y maent yn eu mynychu, os oes mesurau cymorth amhriodol yn ystod eu hymweliad neu yn sgil dieithrio os nad ydynt yn mynd.

Er bod cefnogaeth fras i'r egwyddorion sy'n sail i'r cynnig, roedd llawer o arsylwadau am faterion yr oedd yr ymatebwyr yn credu y mae angen eu hystyried ymhellach. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Goblygiadau staffio os gwneir hyn yn ofyniad statudol.
- P'un a ddylai hyn fod yn hawl rhad ac am ddim cyffredinol neu a ddylai adnoddau gael eu targedu yn hytrach at y rhai sy'n wynebu rhwystrau penodol fel aelwydydd incwm isel.
- Ystyried addysg awyr agored breswyl nid yn unig fel rhywbeth untro ond hefyd fel rhywbeth sy'n cael ei atgyfnerthu gyda gweithgareddau a dysgu cyn ac ar ôl yr arhosiad.
- Ansawdd y ddarpariaeth a sut y caiff safonau priodol eu sicrhau.
- Capasiti'r sector a'r trefniadau sydd ar waith (gan gynnwys llywodraethu a chyllid) rhwng Llywodraeth Cymru, llywodraeth leol a darparwyr.
- Ystod ac amrywiaeth yr addysg awyr agored a ddarperir, gan gydnabod bod gan blant a phobl ifanc anghenion a diddordebau gwahanol.
- Ymarferoldeb a phwysigrwydd ateb anghenion cymhleth rhai disgyblion, er enghraifft y rhai sydd ag anghenion meddygol, emosiynol neu ddysgu, neu anableddau.
- P'un a oes angen i addysg awyr agored fod yn breswyl o reidrwydd a sut y gellir ei hymgorffori hefyd o fewn bywyd yr ysgol a bywyd cymunedol.
- Sut y gall y Bil arfaethedig ategu hyrwyddiad yr iaith a'r diwylliant Cymraeg, gan gynnwys cynyddu'r cyfleoedd i blant a phobl ifanc glywed a siarad Cymraeg.

# 3. Pwy ymatebodd i'r ymgynghoriad?

Cafwyd 175 ymateb – 141 drwy'r ffurflen arolwg ar-lein a chyflwynwyd 34 drwy e-bost. (Heblaw am ambell un, roedd yr ymatebion e-bost yn dal i ddilyn fformat y cwestiynau; dim ond y dull o gyflwyno oedd yn wahanol.)

O blith y 175 o ymatebion, roedd 133 yn ymatebion gan bobl yn rhinwedd eu swyddi ac roedd 42 yn ymatebion personol.

O blith y 133 o ymatebion gan bobl yn rhinwedd eu swyddi, roedd 84 ar ran sefydliad. Roedd 49 o'r ymatebion hyn yn rhai gan unioglion.

O blith yr 84 ymateb ar ran sefydliad, roedd 32 gan ddarparwyr addysg awyr agored o gymharu â 52 ohonynt nad oedd. O blith y 49 a ymatebodd yn rhinwedd eu swyddi ond fel unigolyn, roedd 17 yn ddarparwyr addysg awyr agored o gymharu â 32 ohonynt nad oeddent yn y ddarparwyr o'r fath.


Felly, o blith y 133 o ymatebion mewn gan bobl yn rhinwedd eu swyddi, roedd 49 ohonynt o'r sector addysg awyr agored o gymharu â 84 o'r tu allan i'r sector.

O blith y 42 o ymatebion personol, roedd 4 rhwng 13 a 17 oed, roedd 37 yn 18 oed neu'n hŷn, ac nid oedd un ohonynt wedi datgan ei oedran.

O blith y 37 o oedolion, ymatebodd 17 fel rhiant/gofalwr ac ymatebodd 20 ohonynt o safbwynt arall.

Roedd cyfanswm o 49 o blith y 175 o ymatebion yn rhai gan y sector addysg awyr agored.

## Pwy ymatebodd i'r arolwg?




# 4. Y prif egwyddorion sy’n sail i'r cynnig (Cwestiynau 1,3,4,9)

## Pa mor bwysig yw addysg awyr agored i addysg a datblygiad cyffredinol plant a phobl ifanc? (C1)

Pob ymateb (170 o ymatebion)

- Pwysig iawn 159 (94%)
- Eithaf pwysig 11 (6%)
- Ddim yn gwybod 0
- Nid yw'n bwysig iawn 0
- Ddim yn bwysig o gwbl 0



Ymatebion gan y sector addysg awyr agored (48)

- Pwysig iawn 47 (98%)
- Eithaf pwysig 1 (2%)
- Ddim yn gwybod 0
- Nid yw'n bwysig iawn 0
- Ddim yn bwysig o gwbl 0


Ymatebion nad ydynt yn ymatebion gan y sector addysg awyr agored (122 o ymatebion)

- Pwysig iawn 112 (92%)
- Eithaf pwysig 10 (8%)
- Ddim yn gwybod 0
- Nid yw'n bwysig iawn 0
- Ddim yn bwysig o gwbl 0

## A ddylai plant a phobl ifanc gael cyfle sicr i gymryd rhan mewn profiad addysg breswyl yn yr awyr agored ar ryw adeg yn ystod eu blynyddoedd ysgol, os dymunant? (C3)

Pob ymateb (170 o ymatebion)

- Dylent 163 (96%)
- Na ddylent 5 (3%)
- Ddim yn gwybod 2 (1%)




Ymatebion gan y sector addysg awyr agored (49)

- Dylent 48 (98%)
- Na ddylent 0
- Ddim yn gwybod 1 (2%)


Ymatebion nad ydynt yn ymatebion gan y sector addysg awyr agored (121)

- Dylent 115 (95%)
- Na ddylent 5 (4%)
- Ddim yn gwybod 1 (1%)

## A ddylai cyfle i gymryd rhan mewn profiad addysg breswyl yn yr awyr agored, ar ryw adeg yn ystod eu blynyddoedd ysgol, fod yn rhad ac am ddim ar un achlysur i ddisgyblion? (C4)

Pob ymateb (170 o ymatebion)

- Dylai 145 (85%)
- Na ddylai 10 (6%)
- Ddim yn gwybod 15 (9%)




Ymatebion gan y sector addysg awyr agored (49)

- Dylai 43 (88%)
- Na ddylai 1 (2%)
- Ddim yn gwybod 5 (10%)


Ymatebion nad ydynt yn ymatebion gan y sector addysg awyr agored (121)

- Dylai 102 (84%)
- Na ddylai 9 (7%)
- Ddim yn gwybod 10 (8%)

## Ydych chi’n cytuno bod angen deddfwriaeth i sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn cael cyfle i gael profiad addysg breswyl yn yr awyr agored, ar ryw adeg yn ystod eu blynyddoedd ysgol? (C9)

Pob ymateb (171 o ymatebion)

- Cytuno'n gryf 101 (59%)
- Cytuno 43 (25%)
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno 12 (7%)
- Anghytuno 6 (4%)
- Anghytuno'n gryf 9 (5%)



Ymatebion gan y sector addysg awyr agored (49)

- Cytuno'n gryf 34 (69%)
- Cytuno 7 (14%)
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno 4 (8%)
- Anghytuno 1 (2%)
- Anghytuno'n gryf 3 (6%)

Ymatebion nad ydynt yn ymatebion gan y sector addysg awyr agored (122)

- Cytuno'n gryf 67 (55%)
- Cytuno 36 (30%)
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno 8 (7%)
- Anghytuno 5 (4%)
- Anghytuno'n gryf 6 (5%)

# 5. Crynodeb o farn y rhai nad ydynt yn cefnogi'r prif egwyddorion sy’n sail i'r cynigion

Mae'r adran hon yn crynhoi’r ymatebion gan y rhai a oedd yn anghytuno ag un neu fwy o'r pedwar cwestiwn (C1, C3, C4, a C9) a oedd yn gofyn a oedd pobl yn cytuno neu beidio â'r prif egwyddorion sy’n sail i'r cynigion. Mae'n seiliedig ar yr atebion testun rhydd i gwestiynau eraill.

Ni ddywedodd yr un ymatebwr nad oedd addysg awyr agored yn bwysig. Dywedodd 158 (94%) ei fod yn bwysig iawn a dywedodd 11 (6%) ei fod yn eithaf pwysig (C1).

Yn ogystal, mae mwyafrif mawr (96%) yn credu y dylid cael cyfle sicr i gymryd rhan mewn addysg awyr agored breswyl (C3) ac mae 85% yn credu y dylai hyn fod yn rhad ac am ddim (C4). Mae 83% yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r angen am y Bil arfaethedig (C9).

Nid oedd lleiafrif yr ymatebwyr yn cytuno â'r egwyddorion sylfaenol hyn sy’n sail i'r cynigion.

- Nid yw 5 o'r ymatebwyr (3%) yn credu y dylai fod cyfle sicr i gymryd rhan mewn addysg awyr agored breswyl. Y rhain yw ymatebwyr POE13, POE19, POE31, POE36 ac OE4. [Er gwybodaeth: mae PO yn dynodi ymateb i’r arolwg ar-lein, ac mae OE yn dynodi ymateb a gyflwynwyd drwy e-bost.]

- Nid yw 10 o'r ymatebwyr (6%) yn credu y dylai fod cyfle sicr sy’n rhad ac am ddim. Y rhain yw ymatebwyr POE13, POE19, POE33, POE57, POE62, POE63, POE87, OE3, OE4 ac OE21.

- Nid yw 15 o'r ymatebwyr (9%) yn credu bod angen y ddeddfwriaeth. Y rhain yw ymatebwyr POE7, POE11, POE13, POE19, POE31, POE35, POE36, POE49, POE54, POE57, POE62, OE 3, OE4, OE21 ac OE29.

Mae rhywfaint o ddiffyg gorgyffwrdd rhwng yr atebion i'r cwestiynau hyn. Er enghraifft, dywedodd dau o'r rhai a ddywedodd na ddylid bod cyfle sicr nad oeddent yn gwybod a ddylai hyn fod yn rhad ac am ddim. Cytunodd tri o'r ymatebwyr â'r angen am y Bil, ond roeddent yn anghytuno y dylid bod cyfle sicr sy’n rhad ac am ddim. Cytunodd pedwar ymatebwr y dylid cael cyfle sicr ac y dylai hwn fod yn rhad ac am ddim, ond nid oeddent yn cytuno â'r angen am y Bil. Dywedodd dau ymatebwr y dylid cael cyfle sicr, ac roeddent yn cytuno â'r angen am y Bil, ond roeddent yn anghytuno y dylai'r cyfle sicr fod yn rhad ac am ddim.

Roedd cyfanswm o **18 ymateb a oedd yn anghytuno gydag un neu fwy o egwyddorion sylfaenol y cynigion** - y dylai fod cyfle sicr, y dylai fod yn rhad ac am ddim a bod angen deddfwriaeth.

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r farn hon.

Mae'r pedwar ymateb, a ddywedodd eu bod yn anghytuno â'r cynnig, er gwaethaf eu hatebion eraill sy'n nodi eu bod yn ei gefnogi mewn gwirionedd, wedi'u cysgodi mewn llwyd er mwyn gallu gwahaniaethu rhyngddynt â'r 14 a anghytunodd yn gyson. Ar ben hynny, roedd tri o'r 14 hyn (POE33, PO63 a POE87) yn cytuno â'r angen am y Bil ac yn credu y dylid cael cyfle sicr ond gwnaethant ateb 'Na' pan ofynnwyd a ddylai hyn fod yn rhad ac am ddim. **Gellid dadlau bod hyn yn gostwng y nifer sy'n anghytuno'n glir i lawr i 11 (6%)**.

Gellir crynhoi'r **prif feysydd sy'n peri pryder** fel a ganlyn

- **Bydd cyllid yn cael ei ddargyfeirio i ffwrdd o gyllidebau craidd ysgolion, a ddylai fod y flaenoriaeth fwyaf** a lle y gellir gwneud y defnydd gorau o arian.
- **Goblygiadau staffio** - cael digon o staff ysgolion i fynd ar yr ymweliadau a'r effaith a'r pwysau ar y rhai sy'n fodlon mynd.
- **Pryder na fydd ysgolion yn cael arian ar gyfer costau llawn y gofynion staffio** - naill ai i dalu goramser i'r rhai sy'n goruchwylio ymweliadau neu i ganfod staff cyflenwi yn ystod eu habsenoldeb.

## Crynodeb o farn y rhai nad ydynt yn cefnogi'r cynigion

| | Yn credu y dylid sicrhau cyfle sicr | Yn credu y dylid cael cyfle sicr am ddim | Yn cytuno â'r angen am ddeddfwriaeth | Crynodeb wedi'i aralleirio o farn yr ymatebwyr |
|---|---|---|---|---|
| POE7<br><br>Gweithiwr Datblygu Cymunedol | Ydy | Ydy | Nac ydy | Atebwyd 'Anghytuno' i'r angen am y Bil ond mae ei holl atebion eraill yn nodi ei fod yn cefnogi'r cynnig. Mae'n bosib ei fod yn credu nad deddfwriaeth yw'r llwybr cywir ond nid yw wedi rhoi unrhyw esboniad i awgrymu hyn. Mae'n bosibl felly ei fod wedi dewis Anghytuno ar gam. |
| POE11<br><br>Unigolyn | Ydy | Ydy | Nac ydy | Atebwyd 'Anghytuno' i'r angen am y Bil ond mae pob un o'i atebion eraill yn nodi ei fod yn cefnogi'r cynnig. Mae'n bosibl ei fod yn credu nad deddfwriaeth yw'r llwybr cywir ond nid yw wedi rhoi unrhyw esboniad i awgrymu hyn. Mae'n bosibl felly ei fod wedi dewis Anghytuno ar gam. |
| POE13<br><br>Pennaeth | Nac ydy | Nac ydy | Nac ydy | Ni fydd gan bob ysgol y **staff i hwyluso** hyn. Nid ydynt yn cael eu talu am unrhyw oramser, mae disgwyl iddynt adael eu teuluoedd eu hunain ac mae'n gyfrifoldeb enfawr. Bydd yn rhaid i ysgolion dalu **costau rhyddhau staff ychwanegol**.<br><br>Mae hyn yn gofyn llawer iawn gan athrawon sydd eisoes wedi ymlâdd ac wedi'u gorlwytho, ac mae y tu hwnt i'w telerau ac amodau.<br><br>Mae cyllidebau ysgolion yn dynn fel y mae. Mae'n anodd cefnogi rhaglenni sy'n bodoli eisoes heb sôn am fentrau newydd fel hyn. **Dylid rhoi unrhyw arian ychwanegol yn uniongyrchol i addysgu a dysgu**, sef diben craidd ysgolion. |
| POE19 | Nac ydy | Nac ydy | Nac ydy | Mae'r uchelgais yn deilwng ond mae'n amhosibl yn yr hinsawdd ariannol sydd ohoni. Byddai'n well **gwario'r arian y byddai hyn yn** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Pennaeth | | | | **ei gostio ar wella profiad dyddiol disgyblion mewn ysgolion** - ystad yr ysgol a'r amgylchedd awyr agored o gwmpas adeiladau ysgolion. Bydd **costau ychwanegol yn sgil cyflogi athrawon cyflenwi** i wneud gwaith y staff addysgu sy'n fodlon mynd.<br><br>Mae rhwystrau logistaidd hefyd, megis **canfod staff i wirfoddoli** i gymryd y cyfrifoldeb sylweddol o warchod y plant ar ôl oriau ysgol. Yn ogystal, bydd mwy o faich ar benaethiaid ac arweinwyr ysgolion.<br><br>Mae cymell awdurdodau lleol i sicrhau'r ddarpariaeth hon yn gosod **baich ychwanegol ar system sydd eisoes mewn trafferthion**. Mae'r ddarpariaeth gyffredinol arfaethedig, er yn ganmoladwy yn ei hamcanion, yn anghynaladwy ac afrealistig. |
| POE31<br><br>Unigolyn | Nac ydy | Ddim yn gwybod | Nac ydy | Mae'r cynnig **yn ceisio microreoli'r ffordd y mae ysgolion yn ymdrin ag anghenion eu disgyblion**. Nid yw'n rhoi llawer o hyblygrwydd ac mae'n mynd yn groes i ddull gweithredu'r cwricwlwm newydd o ymateb i anghenion disgyblion yn hytrach na gweithredu'r un ateb i bawb. Mae manteision i weithgareddau preswyl ond nid deddfwriaeth yw'r ffordd gywir o wneud hyn. |
| POE33 Nature Days (Darparwr teithiau maes) | Ydy | Nac ydy | Ydy | Mae'r ymatebwr yn cytuno y dylid cael cyfle sicr ac mae'n cytuno'n gryf â'r angen am ddeddfwriaeth, ond nid oedd yn credu y dylai'r cyfle fod yn rhad ac am ddim, Ni roddodd unrhyw resymau. |
| POE35<br><br>Expeditions Wales | Ydy | Ddim yn gwybod | Nac ydy | Yn amau a fydd amser yn y flwyddyn ysgol i ddarparu ar gyfer hyn. Yn credu bod y cynnig yn rhy ddelfrydol a thocenistaidd. **Mae'n rhoi pwysau ar sefydliadau addysg i ganfod adnoddau, amser a chyllid ychwanegol** i gyflawni ar sail **amlinelliad amwys**. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| POE36<br><br>Pennaeth | Nac ydy | Ddim yn gwybod | Nac ydy | Yn pryderu ynghylch pam mae hyn yn cael ei bennu'n flaenoriaeth, er enghraifft **pam mae gweithgareddau awyr agored yn cael eu blaenoriaethu dros weithgareddau eraill** fel mynd â phlant i weld sioe. Er bod rhai plant yn elwa o addysg awyr agored, byddai rhai yn elwa llawer mwy o gael cyfle i ymweld â dinas Ewropeaidd ac ati. |
| POE49<br><br>Addysgwr awyr agored llawrydd | Ydy | Ydy | Nac ydy | Yn cefnogi'r egwyddor o gyfle sicr yn rhad ac am ddim, felly o bosib nid yw'n credu mai deddfwriaeth yw'r llwybr gorau neu efallai ei fod wedi dewis 'Anghytuno' ar gam. **Yn pryderu am gwmnïau sy'n cael eu gyrru gan elw yn cymryd drosodd y sector** ac y bydd rhai plant yn cael eu heithrio. Mae ansawdd y rhai sy'n darparu addysg awyr agored yn hollbwysig ac a ydynt yn hyfforddedig ac yn fedrus iawn, nid yn unig o ran y gweithgareddau ond o ran gweithio gyda phobl a'u hysgogi ac addysgu sgiliau bywyd. |
| POE54<br><br>Hyfforddwr addysg awyr agored | Ydy | Ydy | Nac ydy | Mae'r ymatebwr hwn yn 'anghytuno'n gryf' â'r angen am ddeddfwriaeth, er iddo ateb yn gadarnhaol i'r cwestiynau eraill a dweud "mae'n gynllun gwych". |
| POE57<br><br>Pennaeth | Ydy | Nac ydy | Nac ydy | **Mae ysgolion eisoes yn cynnig ymweliadau heb gael cyfarwyddyd i wneud hynny**. Os daw hyn yn gyfraith, mae angen ystyried sut y bydd ymweliadau'n cael eu staffio 24 awr y dydd yn hytrach na dibynnu ar staff ysgol sydd ar hyn o bryd yn rhoi o'u hamser 'yn rhad ac am ddim' i gefnogi'r ymweliadau hyn. |
| POE62<br><br>Pennaeth | Ydy | Nac ydy | Nac ydy | Y cynnig yw y bydd y cyfrifoldeb statudol dros sicrhau ymweliadau preswyl yn disgyn ar awdurdodau lleol, sy'n anghywir gan fod ysgolion yn trefnu'r ddarpariaeth ar hyn o bryd. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | Mae gan ysgolion ddulliau eraill eisoes i gefnogi teuluoedd mewn angen fel y Grant Datblygu Disgyblion. **Mae'n cwestiynu a oes unrhyw dystiolaeth nad yw ysgolion cynradd yn mynd â disgyblion na allant ei fforddio**. Mae polisïau codi tâl yn wirfoddol ac mae llawer o ysgolion yn talu am blant o'u cyllideb eu hunain.<br><br>**Mae'n gofyn a fydd arian yn cael ei gymryd o feysydd eraill cyllidebau ysgolion** a pha ystyriaeth a roddwyd i les staff sydd eisoes yn rhoi o'u hamser eu hunain a'u hamser gyda'u teuluoedd. A fydd ysgolion yn cael arian ar gyfer cost staff asiantaeth? Ar gyfer ymweliad blwyddyn 6 gyda 30 o blant, mae angen o leiaf 3 aelod o staff. A fydd y costau cludiant yn cael eu cynnwys hefyd? |
| POE63<br><br>Athro Blwyddyn 6 | Ydy | Nac ydy | Ydy | Os daw hyn yn gyfraith, rhaid i'r cyllid ddod o gyllid ar wahân gan y llywodraeth ac nid o **gyllidebau ysgolion sydd eisoes dan bwysau**. |
| POE87<br><br>Ysgol Gynradd | Ydy | Nac ydy | Ydy | Ni roddwyd unrhyw resymau. |
| OE3<br><br>Pennaeth | Ydy | Nac ydy | Nac ydy | Mae'n cwestiynu **sut y bydd hyn yn cael ei ariannu**. Os yw'n dod o'r cyllid presennol i ysgolion, bydd ymateb negyddol iawn iddo. Mae'n **anodd iawn cael staff ar gyfer ymweliadau preswyl** gan ei fod yn aml yn golygu cyflenwi ar gyfer y staff presennol gyda chostau ychwanegol yn sgil gwneud hynny. Nid yw llawer o staff yn dymuno mynychu teithiau preswyl oherwydd ymrwymiadau teuluol. |
| OE4<br><br>Pennaeth | Nac ydy | Nac ydy | Nac ydy | Mae **costau cudd i'r cynnig hwn**. Yn ogystal â'r gost o ddarparu'r llety a'r gweithgareddau, mae **costau trafnidiaeth a chostau cyflogi athrawon cyflenwi** i gymryd lle'r staff sy'n mynd ar yr |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | ymweliad. Mae'n pryderu na fyddai unrhyw arian a ddarperir yn arian ychwanegol i addysg ac y byddai'n dod o'r cyllidebau addysg presennol. Nid yw am weld mwy o grantiau sydd wedi'u clustnodi ar **draul cyllidebau craidd ysgolion**. |
| OE21<br><br>Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon (NAHT) | Ddim yn gwybod | Nac ydy | Nac ydy | Mae'r prif bryderon yn ymwneud â **chostau cyfleoedd y cynnig a chymryd adnoddau prin i ffwrdd o ble y maent eu hangen mewn ysgolion**. Mae'n cydnabod manteision amlwg addysg awyr agored ond yn cyfeirio at gostau sylweddol staffio ymweliadau. Mae'n tynnu sylw at ddiffyg deublyg ysgolion sy'n colli cyllid i dalu am y cyfle sicr a'r costau ychwanegol i ysgolion o staffio ymweliadau, ynghyd â chost darparu athrawon ar gyfer disgyblion nad ydynt efallai am fynd oherwydd nad yw'r ymweliad yn briodol i'w hanghenion neu sydd wedi penderfynu peidio â mynd. |
| OE29<br><br>Unigolyn | Gwag | Gwag | Nac ydy | Dewisodd yr ymatebwr y ddau ateb a ganlyn: 'Ddim yn cytuno nac yn anghytuno' ac 'Anghytuno'n gryf'. Yn ei sylwadau ychwanegol, mae'n egluro ei fod yn cefnogi'n gryf y syniad bod pob disgybl yn cael profiad preswyl unwaith yn ystod eu hamser yn yr ysgol ond **nid yw'n gweld pam mae'n rhaid iddo fod yn ymweliad addysg awyr agored**. Gellir cael budd personol o daith breswyl waeth beth yw'r lleoliad bron â bod.<br><br>Byddai'n syniad gwell gwario'r arian a fyddai'n cael ei wario ar y cynnig hwn **ar ymwreiddio profiadau awyr agored o fewn gweithgareddau bob dydd yr ysgol** yn eu hardal leol, yn hytrach na chael wythnos i ffwrdd ar safle sy'n gwahanu disgyblion oddi wrth eu bywydau bob dydd a'u hamgylchedd eu hunain.<br><br>Dangosodd dadl y Senedd ym mis Hydref fod nifer o wahanol safbwyntiau ynghylch profiadau yn ystod plentyndod mewn canolfannau addysg awyr agored ac mae'n ymddangos bod |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | dryswch ynglŷn â beth yw nod ymweliad preswyl addysg awyr agored. |

# 6. Y prif fanteision (C2)

## Beth yw'r prif fanteision i blant a phobl ifanc o gael profiad o addysg breswyl yn yr awyr agored?

Mae'r prif fanteision a amlygir yn ymwneud â **phriodoleddau personol y mae'r ymatebwyr yn dweud y gellir eu caffael neu eu datblygu** drwy gymryd rhan mewn addysg awyr agored breswyl. Y rhai a amlygwyd amlaf oedd **hyder, gwaith tîm, annibyniaeth, gwytnwch, sgiliau cymdeithasol a datblygiad personol cyfannol cyffredinol**.

Nodwyd y **cysylltiad â natur a'r amgylchedd, a gwerthfawrogiad a dealltwriaeth ohonynt,** yn aml. Cyfeiriodd tua 40% o'r ymatebwyr at y manteision sy'n gysylltiedig â hyn, gan gynnwys y ffaith ei fod yn meithrin agweddau ac ymddygiadau cadarnhaol tuag at yr amgylchedd yn ddiweddarach yn eu bywydau.

Roedd **ehangu profiadau a chyflwyno profiadau a gweithgareddau newydd** hefyd yn fantais gyffredin a amlygwyd. Roedd darparu cyfle, na fyddai llawer o blant a phobl ifanc yn ei gael fel arall, hefyd yn cael sylw yng nghyd-destun anghydraddoldebau.

Amlygwyd y manteision i **iechyd a lles** gan lawer. Nododd tua 40% hyn, boed yn iechyd corfforol neu'n iechyd meddyliol a lles.

Amlygwyd **cymryd risg positif** mewn amgylchedd diogel, rheoledig gan rai ymatebwyr, ynghyd â **dysgu drwy brofiad** mewn senarios bywyd go iawn, bondio â chyfoedion a bod yn yr awyr agored yn gyffredinol.

Tynnwyd sylw at y manteision addysgol o **safbwynt academaidd ac anacademaidd**. Dywedodd rhai rhanddeiliaid fod addysg awyr agored breswyl yn rhoi hwb i gynnydd academaidd ac yn ategu'r Cwricwlwm i Gymru. Roedd eraill yn tynnu sylw at werth dysgu a gweithgareddau o natur anacademaidd neu anhraddodiadol, o ran datblygiad plentyn.

Isod ceir tabl a chwmwl geiriau yn dangos y manteision a nodwyd gan o leiaf ddau ymatebwr. (Er gwybodaeth, mae'r termau hyn yn gategorïau sydd wedi'u llunio yn sgil dadansoddi'r ymatebion ac nid ydynt o reidrwydd yr union eiriau a ddefnyddiwyd gan ymatebwyr.)

Yn y tabl, mae'r rhifau mewn cromfachau yn dynodi nifer yr ymatebwyr a nododd fanteision a aseiniwyd wedyn i'r categorïau hyn. Mae maint y geiriau yn y cwmwl geiriau'n cynrychioli pa mor aml y cyfeiriwyd at y manteision a neilltuwyd i'r categorïau hyn.

**Beth yw'r prif fanteision i blant a phobl ifanc o gael profiad o addysg breswyl yn yr awyr agored? (175 o ymatebion)**

| | |
|---|---|
| Hyder | 59 |
| Cysylltiad â'r amgylchedd naturiol | 54 |
| Sgiliau gwaith tîm | 52 |
| Iechyd a llesiant | 49 |
| Annibyniaeth | 41 |
| Datblygiad personol ac ennill sgiliau | 37 |
| Gwytnwch | 36 |
| Sgiliau cymdeithasol | 36 |
| Ehangu profiadau a chyflwyno profiadau newydd | 33 |
| Profiad nad yw rhai pobl yn ei gael fel arall | 22 |
| Agweddau cadarnhaol tuag at yr amgylchedd | 19 |
| Rhoi hwb i gynnydd academaidd ac yn ategu'r Cwricwlwm i Gymru | 19 |
| Cymryd risg positif a goresgyn ofnau a heriau | 16 |
| Bod yn yr awyr agored | 15 |
| Iechyd meddwl | 13 |
| Bondio â chyfoedion | 13 |
| Dysgu a datblygu anacademaidd | 12 |
| Llythrennedd corfforol | 12 |
| Sgiliau arwain a chymryd cyfrifoldeb | 11 |
| Dysgu drwy brofiad | 10 |
| Atgofion gydol oes | 9 |
| Datrys problemau | 8 |
| Teimlad o gyflawni rhywbeth | 7 |
| Cysylltiad â'r Gymraeg a diwylliant Cymru | 7 |
| Perthynas well gydag athrawon ac oedolion eraill | 6 |
| Hwyl / Mwynhad | 6 |
| Amser i ffwrdd o ddyfeisiau electronig | 5 |
| Penderfyniad a dyfalbarhad | 4 |
| Creadigrwydd a dychymyg | 4 |
| Antur | 4 |
| Amser i ffwrdd o ardaloedd trefol | 3 |
| Dianc rhag pwysau bywyd bob dydd | 3 |
| Adferiad cymdeithasol ar ôl y pandemig | 2 |
| Enillion ar fuddsoddiad yn gymdeithasol ac yn economaidd | 2 |


Cymryd risg positif a goresgyn ofnau a heriau
Adferiad cymdeithasol ar ôl y pandemig
Sgiliau arwain a chymryd cyfrifoldeb
Atgofion gydol oes
Hyder
Antur
Penderfyniad a dyfalbarhad
Sgiliau cymdeithasol
Rhoi hwb i gynnydd academaidd ac yn ategu’r Cwricwlwm i Gymru
Enillion ar fuddsoddiad yn gymdeithasol ac yn economaidd
Amser i ffwrdd o ardaloedd trefol
Creadigrwydd a dychymyg
Cysylltiad â'r amgylchedd naturiol
Amser i ffwrdd o ddyfeisiau electronig
Dianc rhag pwysau bywyd bob dydd
Cysylltiad â'r Gymraeg a diwylliant Cymru
Iechyd a llesiant
Dysgu a datblygu anacademaidd
Sgiliau gwaith tîm
Gwytnwch
Datrys problemau
Profiad nad yw rhai pobl yn ei gael fel arall
Teimlad o gyflawni rhywbeth
Datblygiad personol ac ennill sgiliau
Llythrennedd corfforol
Iechyd meddwl
Ehangu profiadau a chyflwyno profiadau newydd
Dysgu drwy brofiad
Hwyl / Mwynhad
Bondio â chyfoedion
Perthynas well gydag athrawon ac oedolion eraill
Annibyniaeth
Bod yn yr awyr agored
Agweddau cadarnhaol tuag at yr amgylchedd

# 7. Y prif rwystrau ar hyn o bryd (C5)

## Beth yw'r prif rwystrau sydd, yn eich barn chi, yn bodoli ar hyn o bryd i blant a phobl ifanc rhag cael mynediad i brofiadau addysg breswyl yn yr awyr agored?

Gwahoddwyd yr ymatebwyr i ddewis cynifer o’r atebion ag a oedd yn berthnasol o restr o 8 dewis. Un o'r dewisiadau hyn oedd 'arall' a gofynnwyd iddynt roi manylion.


**Yr holl ymatebion (168 o ymatebion gyda'r rhain yn dewis cyfanswm o 500 o opsiynau o rwystrau o'r rhestr a ddarparwyd)**

- Cyfyngiadau ariannol — 157 (a nodwyd gan 93% o'r ymatebwyr a ddewisodd opsiwn)
- Rhesymau iechyd — 24 (14%)
- Anableddau — 39 (23%)
- Anghenion Dysgu Ychwanegol — 36 (22%)
- Pryder/ansicrwydd rhieni — 100 (60%)
- Pryder/ansicrwydd plant — 94 (56%)
- Arall — 50 (30%) (gweler isod am fanylion)
- Dim — 3 (2%)

[Mae’r rhif mewn cromfachau yn dynodi nifer yr ymatebwyr a ddewisodd yr opsiwn o'r rhestr a ddarparwyd. Mae'r rhif ar gyfer 'Arall' yn dynodi nifer yr ymatebwyr a ddarparodd rwystr 'Arall', nid cyfanswm y rhwystrau eraill a nodwyd.]

Cyflwynir y wybodaeth hon hefyd mewn siart bar isod.

**% o ymatebwyr a nododd rhain fel rhwystr i blant a phobl ifanc rhag cael mynediad i brofiadau addysg breswyl yn yr awyr agored**



## Rhwystrau eraill a nodwyd

Mae’r rhwystrau eraill a nodwyd, yn ychwanegol at y rhestr o opsiynau a ddarparwyd yn yr arolwg, wedi'u grwpio fel themâu ac wedi'u haseinio i'r categorïau isod. Mae'r rhain wedi’u trefnu ar sail amledd (mae’r rhifau mewn cromfachau yn cyfeirio at nifer yr ymatebwyr a nododd y rhwystr, os oes mwy nag un).

- Materion staffio (11)
- Argaeledd/y capasiti i ddarparu addysg awyr agored breswyl (11)
- Heb ei flaenoriaethu gan ysgolion ac awdurdodau lleol (9)
- Diffyg gwybodaeth a hyder ymysg arweinwyr ysgol ac athrawon i drefnu (6)
- Costau trafnidiaeth (6)
- Diffyg ymwybyddiaeth o addysg awyr agored breswyl fel opsiwn neu ei fanteision (6)
- Materion diwylliannol a chrefyddol (5)
- Diffyg staff a chanolfannau arbenigol ar gyfer materion Anghenion Dysgu Ychwanegol neu ymddygiad (4)
- Pwysau o ran amserlenni, cwricwlwm gorlawn, a ffocws rhy gul ar safonau academaidd (5)
- Materion yn ymwneud â COVID (3)
- Diffyg ymgysylltiad gan rieni (2)
- Ei fod yn cael ei adael i ddisgresiwn ysgolion
- Cwmnïau sy'n cael eu gyrru gan elw yn cymryd drosodd y sector
- Diffyg rhaglenni dychmygus
- Diffyg cyfleoedd
- Cymdeithas gwrth-risg, diwylliant iawndal ac ofnau ysgolion
- Argaeledd plant/pobl ifanc (e.e. cyfrifoldebau gofalu)
- Diffyg darpariaeth sy’n sensitif i faterion LHDTC+

- Blaenoriaethau statudol sy’n cystadlu
- Dull anhyblyg o ymdrin â'r hyn sy'n cael ei ystyried yn addysg awyr agored breswyl


# 8. Yr oedran mwyaf addas (C7)

## Yn eich barn chi, pa oedran sydd fwyaf addas i blant a phobl ifanc gael cynnig cyfle i ymgymryd â phrofiad addysg breswyl yn yr awyr agored?

Mae'r canlyniadau ar gyfer y cwestiwn hwn yn cael eu cyflwyno ar wahân ar gyfer yr ymatebion ar-lein a'r ymatebion e-bost. Mae hyn oherwydd, yn yr ymatebion e-bost, roedd yr ymatebwyr yn gallu dewis mwy nag un grŵp oedran ac addasu'r atebion eu hunain, tra bod yr ymatebwyr ar-lein ond yn gallu dewis un opsiwn.


Ymatebion ar-lein (138 o ymatebion)

- Blwyddyn 6 81 (59%)
- Iau 21 (15%)
- Hŷn 33 (24%)
- Ddim ar unrhyw oed 3 (2%)



Ymatebion e-bost (30 o ymatebion)

| | |
|---|---|
| ▪ Blwyddyn 6 | 14 (47%) |
| ▪ Iau | 3 (10%) |
| ▪ Hŷn | 2 (7%) |
| ▪ Ddim ar unrhyw oed | 0 |
| ▪ Pob oed | 4 (13%) |
| ▪ Blwyddyn 6 a hŷn | 7 (23%) |




## Esboniad o'r atebion: 65 o ymatebion ar-lein

O blith y 138 o ymatebion ar-lein i'r cwestiwn hwn, rhoddodd 65 esboniad am eu hatebion:

- 20 o'r 21 ymateb a ddywedodd 'Iau' a phob un o'r 33 ymateb a ddywedodd 'Hŷn' (fe'u hysgogwyd i ddweud oedran).
- Fe wnaeth 11 o blith yr 81 o ymatebion a ddywedodd Blwyddyn 6 fanylu ar eu hateb (er na chawsant eu hysgogi)
- Dywedodd un o'r 3 pherson a ddywedodd 'Ddim ar unrhyw oed' eu bod mewn gwirionedd yn golygu eu bod yn credu bod unrhyw oedran yn addas felly mae eu hymateb yn fwy tebyg i 'Bob oed'.

### Yr 11 a ddywedodd Blwyddyn 6 ac a roddodd eglurhad am eu hateb

Gwnaeth y rhan fwyaf o'r rhai a gytunodd mai Blwyddyn 6 yw'r oedran mwyaf addas ddefnyddio eu hesboniad i ddweud bod pob oedran yn addas neu mai **Blwyddyn 6 ac ar ôl hynny** oedd yr amser gorau mewn gwirionedd.

Dywedodd dau ymatebwr a nododd Blwyddyn 6 ei fod yn oedran rhesymol i blant gael profiadau annibynnol a'i fod yn darparu cyfleoedd cyn trosglwyddo i'r ysgol uwchradd.

I grynhoi, felly, yr awgrym gan y rhai a nododd ‘Blwyddyn 6’ ond a roddodd esboniad oedd **na ddylid ei gyfyngu i Flwyddyn 6**. Er enghraifft, mae'r Cyngor Awyr Agored yn argymell rhaglen flaengar gyda rhai profiadau yn cael eu cyrchu tua Blwyddyn 6 ac yna’n cael eu datblygu ymhellach wrth i ddisgyblion fynd yn hŷn.

### Y 20 a ddywedodd ‘Iau’ ac a roddodd eglurhad am eu hateb

Fe wnaeth y rhan fwyaf o'r rhai a ddewisodd 'Iau' na Blwyddyn 6 fel yr oedran mwyaf addas bennu **Blwyddyn 3 neu 7-8 oed**, felly tua dechrau cyfnod iau addysg (tan yn ddiweddar, roedd hyn yn cael ei adnabod fel diwedd y Cyfnod Sylfaen a dechrau Cyfnod Allweddol 2).

Dywedodd nifer o ymatebwyr fod unrhyw oedran yn addas/yn well, tra'n datgan y gallai ddechrau cyn Blwyddyn 6.

Dywedodd un ymatebwr mai’r ysgolion ddylai benderfynu pryd y mae plant yn barod ar gyfer addysg awyr agored breswyl, nid gwleidyddion na’r llywodraeth. Mae ysgolion yn adnabod eu disgyblion ac mae'n dibynnu ar aeddfedrwydd y plentyn.

### Y 33 a ddywedodd ‘Hŷn’ ac a roddodd eglurhad am eu hateb

- Fe wnaeth 13 o’r ymatebwyr a ddewisodd 'Hŷn' na Blwyddyn 6 fel yr oedran mwyaf addas bennu Blynyddoedd 7-9 neu 11-14 oed.
- Dywedodd 10 o ymatebwyr Flynyddoedd 10-11 neu 14-16 oed.
- Dywedodd 7 ymatebydd ei fod yn dibynnu, a/neu dylai’r ysgol wneud y penderfyniad.
- Nododd 2 ymatebydd y dylid ei wneud ddwywaith – naill ai ym Mlwyddyn 6 neu 7 ac eto ym Mlwyddyn 9 neu 10.
- Dywedodd 1 ymatebwr 16-18 oed.

## Esboniad o'r atebion: 3 ymateb drwy e-bost

Dim ond tri o'r 30 ymateb e-bost a roddodd esboniad o'u hatebion. Fodd bynnag, roeddent yn gallu dewis mwy nag un grŵp oedran ac addasu'r atebion eu hunain, tra bod yr ymatebwyr ar-lein ond yn gallu dewis un opsiwn. Adlewyrchir hyn yn y dadansoddiad o'r 30 o ymatebion drwy e-bost uchod, gyda 7 (23%) yn nodi opsiwn nad yw ar y rhestr mewn gwirionedd – Blwyddyn 6 a hŷn.

- Dywedodd canolfan addysg awyr agored fod Blwyddyn 6 yn oedran da gan ei fod yn rhoi hwb i'w hyder yn ystod y cyfnod o drosglwyddo i'r ysgol uwchradd a dod yn fwy annibynnol. Gwnaethant hefyd ddewis 'Hŷn', gan egluro ei fod yn darparu profiad bondio da i grŵp sydd newydd ei ffurfio gan ymgymryd â heriau newydd neu ddatblygu sgiliau cain, er y gall hyn fod yn anodd os nad oeddent wedi profi addysg awyr agored breswyl o'r blaen.
- Dewisodd Estyn bob oed a dywedodd nad yw manteision addysg awyr agored breswyl yn gyfyngedig i grŵp oedran penodol a bydd y manteision i ddysgwyr yn amrywio yn ôl eu cam datblygu. Maent yn cyfeirio at un astudiaeth sy'n awgrymu bod dechrau Blwyddyn 7 yn arbennig o fuddiol oherwydd, o gymharu â gweithgareddau ymsefydlu yn yr ysgol, mae tripiau preswyl awyr agored sy'n canolbwyntio ar y sgiliau sydd eu hangen ar gyfer bywyd yn yr ysgol uwchradd yn darparu'r raddfa gryfaf o newid i les seicolegol disgyblion.
- Dewiswyd pob oedran gan Gyngor Dysgu Awyr Agored Cymru, ond dywedodd fod Blynyddoedd 5/6 a Blynyddoedd 8/9 yn gweddu'n dda gan eu bod yn osgoi cyfnod setlo Blwyddyn 7 a blynyddoedd arholiadau, tra'n hysbysu dewisiadau TGAU. Maent yn dweud bod modd cynnig addysg awyr agored breswyl ar unrhyw oedran unwaith y bydd plant yn annibynnol ac yn hyderus i fod oddi cartref. Yr hyn sy'n bwysig yw pan fydd modd gwneud y mwyaf o fanteision yr ymweliad, waeth beth fo'u hoedran.

## Crynodeb


I grynhoi, **cytunodd ychydig dros hanner yr ymatebion mai Blwyddyn 6 oedd yr oedran mwyaf addas.** Er hynny, mae barn gymysg ymhlith eraill ynghylch a yw oedran 'iau' neu 'hŷn' yn well. Roedd cryn dipyn o **arwyddion nad oes oedran gorau**, ei fod yn **dibynnu ar sawl ffactor** a'i bod yn **well peidio â rhagnodi oedran o bosibl**.

# 9. Yr hyd mwyaf addas (C8)

## Ai pedair noson/pum diwrnod yw'r hyd gorau ar gyfer profiad awyr agored preswyl?

Pob ymateb (170 o ymatebion)

- Ie 83 (49%)
- Nage 52 (31%)
- Ddim yn gwybod 35 (21%)




## Esboniad o'r atebion: 150 o ymatebion

Rhoddodd 150 o blith 170 o ymatebion esboniad:

- 73 o blith yr 83 a atebodd 'Ie'
- 50 o blith y 51 a atebodd 'Nage'
- 27 o blith y 35 a ddywedodd 'Ddim yn gwybod'.

Y 73 a atebodd 'Ie' a roddodd esboniad

- Dywedodd ychydig llai na hanner y rhai a gytunodd mai pedair noson/pum niwrnod yw'r hyd gorau yn benodol ei fod yn ddigon o amser i blant a phobl ifanc gael annibyniaeth a dod dros unrhyw

**bryder neu hiraeth** (gan awgrymu efallai na fyddai unrhyw amser byrrach yn ddigon ar gyfer hyn).

- Nododd tua 10 o'r ymatebwyr nad oedd pedair noson yn gyfnod rhy hir (gan awgrymu y gallai mwy o amser fod yn rhy hir).
- Dywedodd tua thraean mai dyma'r **hyd cywir i gyflwyno rhaglen a phrofiad ystyrlon** i'r cyfranogwyr elwa ohonynt. Roedd y rhesymau a roddwyd yn cynnwys y ffaith bod llawer o'r amser ar deithiau byrrach yn canolbwyntio ar deithio a bod oddi cartref yn hytrach nag ar weithgareddau, bod pum niwrnod yn rhoi cyfle i'r cyfranogwyr fondio â'r hyfforddwyr a bod unrhyw beth byrrach yn teimlo wedi'i ruthro. Dywedodd eraill ei fod yn cydweddu â phatrwm wythnos ysgol ac wythnos gymdeithasol.
- Crynhodd Her Cymru daith emosiynol cyfranogwyr drwy gydol wythnos o addysg awyr agored breswyl ar hyd y llinellau canlynol:
  - Diwrnod 1af, nid ydynt bob amser yn hapus – maent i ffwrdd o'u cartrefi a'u hamgylchoedd cyfarwydd am y tro cyntaf;
  - 2il ddiwrnod, dechrau dod allan o'u cragen ac addasu;
  - 3ydd diwrnod, maent bellach yn dod yn fwy hyderus ac yn gweithio'n dda fel unigolion ac fel grŵp;
  - 4ydd diwrnod, maent yn dod yn fwy hunangynhaliol, yn gallu dechrau sgyrsiau gydag eraill ac yn gallu deall beth sydd angen iddynt ei wneud;
  - 5ed diwrnod, maent yn teimlo ymdeimlad o gyflawniad ac yn cydnabod eu llwyddiannau.
- Dywedodd rhai ymatebwyr, er eu bod yn cytuno mai pedair noson/pum niwrnod yw'r hyd gorau, y **gallai fod yn amser hir i rai plant, fel y rhai ag Anghenion Dysgu Ychwanegol**, gwnaethant dynnu sylw at yr effaith ar y staff, neu gwnaethant **gwestiynu a oes angen model safonol**. Nododd un na fydd gan y sector addysg awyr agored breswyl y capasiti o bosibl i ateb y gofynion am ymweliadau pedair noson ar gyfer pob disgybl. Awgrymodd sawl un y byddai teithiau o wahanol hyd yn gweddu i ddysgwyr o wahanol oedrannau ac y gellid rhannu'r hawl i arhosiad am wythnos ar draws mwy nag un daith.

Y 50 a atebodd ‘Nage’ a roddodd esboniad

- Roedd ychydig llai na dwy ran o dair (31) o'r ymatebwyr a atebodd ‘Na’ ac a roddodd esboniad o'r farn bod pedair noson yn rhy hir, yn enwedig i blant ysgol gynradd, gan gynnwys Blwyddyn 6. Un rheswm cyffredin a roddwyd oedd mai hwn yn aml fydd yr achlysur cyntaf y bydd plant i ffwrdd o'u rhieni ac mae'n **amser hir i fod oddi cartref yn yr oedran hwnnw**. Roedd rhai ymatebwyr hefyd yn teimlo y gellid cael digon o fanteision o ymweliad byrrach ac y **gallai effaith negyddol hiraeth am adref, blinder, a blinder emosiynol danseilio'r manteision a gafwyd** yn y dyddiau cyntaf. Roedd rhai o'r ymatebwyr a oedd yn teimlo bod pedair noson yn rhy hir wedi cyfeirio at yr effaith ar staff ysgolion sy’n goruchwylio'r ymweliad o fod yn gyfrifol 24 awr y dydd.

- Dywedodd 5 ymatebydd nad oeddynt o reidrwydd yn anghytuno â’r egwyddor o bedair noson o ran ei addasrwydd i blant, **na fyddai hynny'n ymarferol o bosibl oherwydd materion staffio neu ei fod yn afrealistig oherwydd costau a chapasiti'r** sectorau addysg awyr agored.

- Roedd 2 ymatebydd yn teimlo y byddai ymweliadau sy’n hirach na phedair noson yn cael mwy o effaith.

- Gwnaeth 8 ymatebydd godi’r **angen am hyblygrwydd gan ddadlau mai’r ysgolion ddylai benderfynu** pa hyd yw’r amser gorau i fynd â'u disgyblion, gan awgrymu na ddylai deddfwriaeth geisio pennu hyd safonol.

- Roedd 8 ymatebydd o blaid cael **ymweliadau o hyd gwahanol ar gyfer gwahanol oedrannau**.

Y 27 a ddywedodd ‘Ddim yn gwybod’ a roddodd esboniad

- Nododd 5 o'r ymatebwyr a atebodd 'Ddim yn gwybod' eu bod yn credu y dylai tripiau preswyl fod yn fyrrach na phedair noson/pum niwrnod.

- Roedd 9 ymatebwr yn credu **na ddylid rhagnodi hyd yr ymweliadau**, gan roi rhesymau fel y ffaith mai’r **ansawdd yn hytrach na'r hyd** sydd fwyaf pwysig ac y dylai fod yn fater o farn a disgresiwn i ysgolion.

- Gwnaeth 10 arall sylwadau tebyg, gan nodi bod yr hyn sy'n addas yn **dibynnu ar sawl ffactor** fel oedran y plentyn, unrhyw anghenion sydd ganddynt ac amcanion yr ymweliad.

- Roedd nifer o'r ymatebwyr yn ymddangos yn agored i ymweliadau o hyd amrywiol.
- Yn ôl un ymatebwr (Estyn), gallai gofyn am un daith safonol am bedair noson gyfyngu ysgolion a dywedodd y gallai fod anghytuno yn lleol rhwng yr ysgol gynradd a'r ysgol uwchradd ynghylch pwy ddylai ddarparu hyn. **Awgrymodd Estyn ddewis arall, sef ei gwneud yn ofynnol bod ymweliad o leiaf dwy noson o hyd yn cael ei gynnal yn yr ysgol gynradd ac yn yr ysgol uwchradd**..

## Crynodeb

Yn gryno, **roedd ychydig llai na hanner yr ymatebion yn cytuno mai pedair noson/pum niwrnod yw'r hyd aros gorau**, yn bennaf er mwyn caniatáu i'r cyfranogwyr gael manteision llawn profiad o'r fath. **Fodd bynnag, roedd 30% yn anghytuno** oherwydd rhesymau fel eu bod yn credu bod hwn yn gyfnod rhy hir i fod oddi cartref yn enwedig i'r plant o oedran ysgol gynradd. Roedd rhai o'r farn y gallai cael arhosiad rhy hir danseilio'r manteision a gafwyd mewn cyfnodau byrrach.

Fel gydag oedran, roedd cryn dipyn o **arwyddion y gallai fod yn well peidio â rhagnodi pa mor hir y dylai profiadau bara a bod yr hyd mwyaf addas yn dibynnu ar sawl ffactor**, yn bennaf oedran y rhai sy'n cymryd rhan. Awgrymodd rhai ymatebwyr **y dylid ystyried ymhellach sut y gellir cyflunio hawl i drip wythnos o hyd**, er enghraifft drwy ei rannu'n ddau gyfnod byrrach gydag isafswm hyd.

# 10. Ystyriaethau cydraddoldeb (C6)

## A allai'r Bil arfaethedig gael unrhyw effaith cadarnhaol ar rai plant a phobl ifanc yn arbennig? Os felly, pwy a pham?

Nododd mwyafrif yr ymatebion y byddai'r Bil yn sicrhau cydraddoldeb drwy roi cyfle i bob person ifanc gymryd rhan mewn addysg awyr agored beth bynnag fo'u cefndir. Roedd ffocws penodol ar bobl ifanc o gefndiroedd difreintiedig a chydag Anghenion Dysgu Ychwanegol. Cyfeiriwyd hefyd at bobl ifanc o gymunedau ethnig amrywiol a chydag anableddau.

Tynnodd yr ymatebwyr sylw at ystod o effeithiau cadarnhaol ar bobl ifanc sy'n cymryd rhan mewn addysg awyr agored (a adlewyrchir hefyd yn adran 6 y briff hwn), a oedd yn cynnwys:

- Gwella iechyd corfforol a meddyliol;
- Datblygu sgiliau cymdeithasol a chyfathrebu
- Meithrin gwytnwch ac annibyniaeth
- Adeiladu tîm

Cyfeiriodd nifer o ymatebwyr at y ffaith bod addysg awyr agored yn galluogi pobl ifanc i ddysgu mewn lleoliadau gwahanol gydag ymatebion hefyd yn canolbwyntio ar y profiadau cadarnhaol i'r bobl ifanc sy'n ei chael hi'n anodd mewn amgylchedd ystafell ddosbarth.

Roedd sôn hefyd am weld y Bil yn cefnogi'r cwricwlwm newydd yng Nghymru i wella a chyfoethogi profiadau addysg plant a phobl ifanc.

## A allai'r Bil arfaethedig gael unrhyw effaith negyddol ar rai plant a phobl ifanc yn arbennig? Os felly, pwy a pham? Beth allai'r Bil hwn ei wneud i liniaru unrhyw effeithiau negyddol?

O blith yr 175 o ymatebion i'r Ymgynghoriad, dywedodd **43 o'r ymatebwyr (25%)** na fyddai **unrhyw effeithiau negyddol i'r Bil**, atebodd **5 ymatebwr** "Ddim yn berthnasol" i'r cwestiwn ac ni wnaeth **38 o'r ymatebwyr (22%)** ateb y cwestiwn. Roedd 3 ymateb yn aneglur ac ymatebodd 2 "Ddim yn gwybod".

Dywedodd **83 o'r ymatebion (47%)** y bydd effeithiau negyddol o bosib, ac ni wnaeth y mwyafrif ohonynt gynnig mesurau lliniaru posib.

Cyfeiriwyd at **bryder**, boed o ran y plentyn neu'r rhiant, fel yr effaith negyddol fwyaf cyffredin posibl (cyfeiriodd **17 ymateb at bryder**). I ateb hyn, cafwyd awgrymiadau yn cynnwys yr opsiwn o optio allan o'r ymweliad i blant a fyddai o bosibl yn dioddef yn arbennig gyda gorbryder yn sgil bod oddi cartref. Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo y dylai plant neu rieni allu dewis a ydynt yn mynychu'r ymweliad ai peidio. **Amlygwyd y ffaith bod mesurau cymorth priodol, a allai gynnwys staff ychwanegol i gefnogi plant, yn hanfodol i helpu plant sy'n bryderus.**

O ran gorbryder, dywedodd Cyngor Ynys Môn y byddai angen i unrhyw brofiad preswyl yn yr awyr agored fod **wedi'i gynllunio'n dda a darparu ar gyfer dysgwyr sy'n bryderus, gan sicrhau cyfleoedd fel gweithgareddau gwahaniaethol i gydweddu â dysgwyr**. Tynnodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro sylw at y ffaith y gallai'r plant, pe byddent yn dewis peidio â chymryd rhan, deimlo eu bod wedi'u heithrio o brofiad y mae'r mwyafrif o'u cyfoedion yn cymryd rhan ynddo. Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn awgrymu **ffordd o liniaru'r pryderon ynghylch gorbryder ymhlith plant, sef sicrhau bod y gymhareb 'oedolion y gellir ymddiried ynddynt' i blant yn uchel er mwyn sicrhau bod pob plentyn yn teimlo bod ganddynt ddigon o gefnogaeth**.

O ran yr awgrym y gallai cyfnod aros o wythnos beri pryder ymysg plant sydd heb gysgu oddi cartref, mae Ysgol Cae'r Nant yn awgrymu **rhannu taith breswyl dros wythnos o hyd** yn ddau ymweliad preswyl byrrach i wahanol safleoedd. Awgrymodd un ymatebwr y gallai cyfarfod â rhieni cyn cynnig yr ymweliad i ofyn cwestiynau helpu i fynd i'r afael â phryder rhieni.

Er nad oedd yn mynd i'r afael yn uniongyrchol â gorbryder, tynnodd y Bartneriaeth Awyr Agored sylw at bryder ymysg y plant a'r rhieni y gellid ei liniaru drwy sicrhau bod y cynnig addysg yn cyfeirio at yr hyn sy'n digwydd cyn ac ar ôl y daith. Mae'r Bartneriaeth Awyr Agored yn awgrymu y gellid lliniaru pryder rhieni

drwy ddarparu cynnig addysgol o ansawdd fel y Marc Ansawdd Dysgu y Tu Allan i’r Ystafell Ddosbarth a fframwaith diogelwch wedi'i reoleiddio.

Amlygwyd yr effaith negyddol posib ar blant sydd ag **Anghenion Dysgu Ychwanegol neu anableddau mewn 12 ymateb**. Dywedodd y Ganolfan Dysgu Awyr Agored (Prifysgol Metropolitan Caerdydd) y bydd plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol yn teimlo wedi'u heithrio os nad yw cynwysoldeb yn rhan annatod o'r Bil. Cefnogaeth ychwanegol i blant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol ac anableddau corfforol oedd y dull lliniaru mwyaf cyffredin.

O ran camau lliniaru, awgrymodd un ymateb y **gallai cymarebau goruchwylio llymach o amgylch plant gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol helpu i atal unrhyw brofiadau negyddol**. Awgrymodd un athro addysg awyr agored wnaeth ymateb i'r ymgynghoriad y gellid ymestyn **dulliau addasol**, sy'n cael eu defnyddio mewn ystafelloedd dosbarth, i ddysgu yn yr awyr agored i gefnogi plant ag anghenion dysgu.

Amlygodd yr Undeb Addysg Cenedlaethol y ffaith y **byddai angen rhoi addasiadau a chefnogaeth briodol ar waith i wneud unrhyw deithiau mor hygyrch â phosibl i ddysgwyr sy'n dioddef o gyflyrau iechyd meddwl, anableddau neu gyflyrau iechyd eraill**. Awgrymodd yr Undeb hefyd y byddai angen trefnu gweithgareddau amgen i sicrhau bod y dysgwyr nad ydynt yn mynd yn gallu ymgymryd â chyfleoedd cyfoethogi tra bod y plant eraill i ffwrdd. Amlygodd rhiant/gofalwr a ymatebodd i'r ymgynghoriad y ffaith y **dylid darparu gweithgareddau addas i blant ag anableddau**. Yn ogystal, dywedodd ei bod yn bosibl na fydd rhai plant sydd ag ystyriaethau iechyd meddwl neu gorfforol yn teimlo'n gyfforddus mynd ar daith breswyl ac y dylai fod ganddynt yr opsiwn i optio allan.

Tynnwyd sylw at y mater o gost neu gyllid mewn **11 ymateb** i'r ymgynghoriad. Roedd Ffederasiwn Ysgolion Cynradd Kymin View a Llandogo yn pryderu a fyddai'r Bil yn cwmpasu’r costau **preswyl, trafnidiaeth, a staff ysgolion** yn ddigonol, tra’n talu costau'r cit dysgwyr hefyd y mae’n bosibl y bydd rhai teuluoedd yn ei chael yn anodd talu amdano.

Dywedodd y Bartneriaeth Awyr Agored, os nad yw’r cyllid/trafnidiaeth yn cael eu cadarnhau, yna mae'n **rhwystr i'r rhai sy'n methu ei fforddio**. Dywedodd Cyngor Sir Powys y **byddai’n anodd gorfodi grym** y ddeddfwriaeth heb gefnogaeth ariannol.

Dywedodd Gwobr Dug Caeredin y gallai'r Bil gynnwys hyblygrwydd i unrhyw gyllid gael ei **wario yn ôl yr angen i gefnogi presenoldeb pobl ifanc** drwy eu cefnogi i ddod o hyd i'r hanfodion sydd eu hangen i fod yn bresennol. Tynnodd sylw hefyd at y ffaith na fydd y cynnig i bobl ifanc yn gyfartal ym mhob achos o

bosibl, yn enwedig oherwydd y gallai'r canolfannau mwyaf cyffrous fod y pellaf i ffwrdd ac wedi’u harchebu'n gyflym gan ysgolion sydd ag adnoddau ychwanegol i dalu costau ategol fel trafnidiaeth a staffio ychwanegol. I liniaru hyn, awgrymodd y dylai’r swm a neilltuir ar gyfer person ifanc **dalu am yr holl gostau sy'n gysylltiedig â mynychu’r daith, gan gynnwys trafnidiaeth, staffio a darparu unrhyw gymorth arbenigol sydd ei angen**. Yn ôl Addictive Adventure, mae'n hanfodol bod athrawon yn cael eu talu i fod i ffwrdd. Maent yn cyfeirio at y ffaith eu bod wedi gweld gormod o ymweliadau preswyl yn cael eu canslo oherwydd nad yw’r staff yn cael eu horiau yn ôl.

Roedd pryderon y gallai plant sy'n cael eu **haddysg gartref neu sydd mewn addysg amgen** golli allan ar y cyfle hwn ac, fel dull lliniaru, dylai'r ddeddfwriaeth ystyried sut y bydd y plant hyn yn derbyn eu hawl i'r cyfle hwn. Awgrymwyd y dylai'r Bil hwn hefyd ymestyn i Wasanaethau Chwarae ac Ieuenctid yr awdurdodau lleol i atal plant nad ydynt mewn addysg yn yr ysgol rhag colli allan.

Amlygwyd **pwysigrwydd dewis a ddylid optio i mewn/allan** o'r cyfle mewn **10 ymateb.** Dywedodd Cyngor Dysgu Awyr Agored Cymru y dylai pobl ifanc gael yr opsiwn i beidio â mynd, ac y dylid eu cefnogi er mwyn sicrhau nad ydynt yn cael eu dieithrio oddi wrth eraill. Dylid cefnogi penderfyniad rhiant i'r person ifanc beidio â mynychu’r daith hefyd. Mae dull lliniaru a gynigwyd gan y Cyngor ar gyfer hyn yn cynnwys **darparu addysg i rieni a gwarcheidwaid ar fanteision dysgu o arferion da e.e. prosiect y Peak District gyda'r gymuned Fwslimaidd leol**.

Dywedodd Gwobr Dug Caeredin, os nad yw plentyn/person ifanc yn gallu bod yn bresennol, yna **dylid defnyddio’r cyllid sydd ar gael i ddarparu dewis arall dibreswyl ystyrlon naill ai yn yr ysgol neu drwy ddefnyddio darparwyr lleol**.

# 11. Sylwadau ychwanegol (C10)

## O blaid ac yn erbyn

Gwnaeth cyfanswm o 111 o blith y 175 o ymatebion sylwadau ychwanegol - 81 o blith y 140 o'r ymatebion i'r arolwg ar-lein a 30 o blith y 34 o ymatebion drwy e-bost.

Roedd 47 o'r sylwadau ychwanegol hyn yn gadarnhaol iawn, ac yn dweud, er enghraifft, bod y cynnig yn 'syniad gwych', eu bod yn 'ei gefnogi'n llawn', bod 'ei angen yn fawr' neu ei fod yn 'hir-ddisgwyliedig', neu'n datgan yn gyffredinol fanteision addysg awyr agored breswyl. Mae barn yr ymatebwyr am fanteision addysg awyr agored breswyl yn cael ei chynnwys yn adran 6 y briff hwn.

Mynegodd 11 sylw ychwanegol wrthwynebiad i'r cynnig yn eu sylwadau ychwanegol . Roedd yr ymatebwyr hyn yr un rhai â'r rheini a oedd yn anghytuno ag un o'r prif egwyddorion sy'n sail i'r cynnig ac mae eu sylwadau wedi'u crynhoi yn adran 5 y briff hwn.

## Materion i'w hystyried

Roedd sylwadau ychwanegol yn gwneud arsylwadau ac yn tynnu sylw at bethau y maent yn credu y dylid eu hystyried ymhellach wrth ddatblygu'r ddeddfwriaeth. Mae crynodeb o'r rhain isod.

Roedd y materion mwyaf cyffredin a godwyd yn ymwneud â'r goblygiadau staffio, er enghraifft sut y bydd ysgolion yn cyflawni'r gofyniad i fynd â disgyblion ar ymweliadau os nad oes ganddynt staff sy'n barod i fynd neu'n gallu mynd, a sut y bydd y cyllid a ddarperir yn talu'r gost lawn o dalu'r staff a/neu gyflenwi ar eu cyfer fel y gallant fynd, ac a fydd hynny'n digwydd. Cafodd y cwestiwn penodol ynghylch sut y bydd y cynnig yn cydweddu â thelerau ac amodau athrawon ei godi.

Mae dau undeb sy'n cynrychioli penaethiaid - Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon (NAHT) a'r Gymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau (ASCL). Mae un o'r rhain – NAHT - wedi ymateb i'r ymgynghoriad. Roedd yr undeb yn anghytuno â'r prif egwyddorion sy'n sail i'r Bil ac mae ei ymateb (OE-021) wedi'i grynhoi yn adran 5 y briff hwn.

Mae tri phrif undeb sy'n cynrychioli athrawon - yr Undeb Addysg Cenedlaethol (NEU), Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau ac Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru. Yr Undeb Addysg Cenedlaethol oedd yr unig un o'r rhain wnaeth ymateb i'r ymgynghoriad. Dangosodd ei ymateb (OE-024) ei fod yn cytuno y dylai fod cyfle sicr i gymryd rhan mewn addysg awyr

agored breswyl ond nid oedd yn gwybod a ddylai fod yn rhad ac am ddim. Dewisodd 'Ddim yn cytuno nac yn anghytuno' i'r cwestiwn yn gofyn a oedd yn cytuno â'r angen am y Bil. Tynnodd yr undeb sylw at y "goblygiad cost enfawr" ar adeg "pan fo cyllidebau ysgolion yn cael eu gwasgu", gan dynnu sylw nid yn unig at bwysigrwydd rhoi'r amser yn ôl i athrawon sy'n goruchwylio ymweliadau ond hefyd y costau cyflenwi yn eu habsenoldeb, os yw rhai plant yn peidio â mynd ac yn aros yn yr ysgol. Mae'n galw am ddadansoddiad o gostau/manteision y cynnig.

Cwestiynodd sawl ymatebydd **natur gyffredinol** y cynnig sicr, er enghraifft a fyddai cymorth ariannol yn cael ei dargedu'n well at deuluoedd nad ydynt yn gallu ei fforddio yn hytrach na thalu am bawb. Roedd ymatebwr arall yn credu bod mwyafrif yr ysgolion yn cynnig ymweliadau preswyl eisoes gan ddadlau y byddai'n well cefnogi'r ysgolion nad ydynt yn gallu rhoi'r cyfle hwn, neu sy'n peidio â'i roi. Ar y llaw arall, roedd eraill yn dadlau y dylai addysg awyr agored breswyl ddod yn **"hawl" yn hytrach na'i fod yn rhywbeth sy'n "cyfoethogi"** y cwricwlwm neu'r arlwy addysg ehangach.

Thema a gododd yn weddol aml oedd na ddylai'r cyfle i gael mynediad i addysg awyr agored fod yn ddigwyddiad untro ac y **dylid ei atgyfnerthu gyda gweithgareddau a dysgu cyn ac ar ôl mynd**. Er enghraifft, dywedodd y Bartneriaeth Awyr Agored ei bod yn bwysig sicrhau bod llwybrau dilyniant ac ymadael i blant a phobl ifanc cyn ac ar ôl eu profiad preswyl.

Pwysleisiodd rhai ymatebwyr **bwysigrwydd ansawdd y ddarpariaeth addysg awyr agored breswyl**. Er enghraifft, tynnodd ER Outdoors sylw at y ffaith y gallai darparwyr sydd wedi blaenoriaethu a buddsoddi mewn hyfforddiant i'w staff i sicrhau ansawdd fod yn ddrytach ond bod ansawdd y ddarpariaeth wir yn cyfrif er mwyn sicrhau'r manteision mwyaf posibl i bobl ifanc. Awgrymodd CMC Adventure y dylid cael diffiniad o ansawdd yn y Bil fel bod yr ansawdd a'r safonau'n glir i bawb sy'n rhan o'r ymweliad ac i sicrhau nad yw darparwyr yn cymryd llwybrau byr. Awgrymodd Ysgolion Awyr Agored Sir Benfro achrediad a ddefnyddir yn gyffredinol a gydnabyddir fel y bathodyn Ansawdd Dysgu y Tu Allan i'r Ystafell Ddosbarth fel ffordd o sicrhau bod pob darparwr yn darparu profiadau o ansawdd. Awgrymodd Cyfoeth Naturiol Cymru ystod o dystysgrifau a gwobrau Agored Cymru.

Tynnodd eraill sylw at **bwysigrwydd natur addysgol y profiad** ac y dylai ategu'r cwricwlwm, yn hytrach na dim ond darparu hwyl tymor byr heb unrhyw effaith barhaol ystyrlon. Yn ôl OEAP Cymru, mae'r cynnig yn rhoi cyfle i ysgolion "ddod â'u cwricwlwm yn fyw o ddifri".

Rhybuddiodd Gwobr Dug Caeredin ynghylch canlyniad posib y Bil, sef y gallai cwmnïau fynd i mewn i'r farchnad addysg awyr agored i ddarparu atebion parod

i ysgolion ac awdurdodau lleol sy'n awyddus i gyflawni eu dyletswyddau statudol. Dywedasant fod **angen rhoi sylw i sicrhau safonau cyflenwi a diogelu priodol**. Mae'n annog ystyriaeth ofalus o fecaneg sut y mae'r cyllid yn cael ei ddarparu.

Dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru y **byddai angen trefniant ffurfiol ar lywodraeth leol gyda chyflenwyr** addysg awyr agored breswyl, ac y dylai'r system fod yn gwbl ddibynadwy ac atebol a bodloni'r disgwyliad heb risg o ymgyfreitha. Dywedodd hefyd fod "angen myfyrio ar beth y mae 'sicr' yn ei olygu yn y cyd-destun hwn".

Roedd rhai ymatebion yn cyfeirio at **gapasiti'r sector addysg awyr agored breswyl i ateb y galw ychwanegol** allai godi yn sgil sefydlu hawl statudol, yn enwedig gan fod y sector wedi ei wanhau gan y pandemig. Nodwyd hefyd y byddai angen ystyried lle y mae'r canolfannau wedi eu lleoli yng Nghymru a sicrhau mynediad cyfartal gan bob ardal awdurdod lleol.

Tynnodd sawl ymatebydd sylw at yr **angen i'r cynnig addysg awyr agored adlewyrchu amrywiaeth anghenion a diddordebau plant a phobl ifanc**. Ni ddylid bod dull un ateb sy'n addas i bawb, er enghraifft, gall y dybiaeth fod pob plentyn yn hoffi rhaffau uchel a chaiacio barhau'r canfyddiadau negyddol o'r awyr agored. Dywedodd Prifysgol De Cymru y gall addysg awyr agored breswyl gymryd llawer o ffurfiau megis gweithdai natur a chelf, a gweithgareddau crefftau coetir, sy'n gallu bod yn fwy addas ar gyfer plant sy'n ofni gweithgareddau mwy 'traddodiadol awyr agored'.

Amlygwyd **ymarferoldeb a phwysigrwydd diwallu anghenion cymhleth rhai disgyblion** hefyd, er enghraifft y rhai ag anghenion meddygol (e.e. diabetes), anghenion emosiynol (e.e. gorbryder) neu anghenion dysgu neu anableddau. Cyfeiriwyd at arwyddocâd hyn fel cyfle, h.y. ni ddylai unrhyw blentyn na pherson ifanc fod o dan bwysau i fynd ar daith breswyl, er bod llawer o fanteision os ydynt yn dewis gwneud hynny.

Dadl rhai ymatebwyr oedd bod **angen ystyried addysg awyr agored mewn cyd-destun ehangach nag addysg awyr agored breswyl yn unig**. Roedd galwadau am i ddysgu yn yr awyr agored fod wedi'i ymwreiddio'n gadarnach mewn profiadau ysgol bob dydd yn hytrach na dibynnu ar ymweliad wythnos o hyd yn unig. Er ei fod yn cefnogi'r cynnig, dywedodd Estyn fod modd cael llawer o'r manteision trwy ymweliadau dydd a thrwy ddefnyddio'r awyr agored yn rheolaidd. Nodwyd hefyd bod ei hadroddiadau arolygu ysgolion yn aml yn cyfeirio'n gadarnhaol at effaith 'teithiau', ond mae hyn yn cynnwys teithiau dydd ac nid yw'n gysylltiedig ag addysg awyr agored breswyl yn unig. Pwysleisiodd y Bartneriaeth Awyr Agored bwysigrwydd darparu gweithgareddau awyr agored yn y gymuned er mwyn hwyluso ymgysylltiad gydol oes.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru o'r farn y dylid ehangu'r Bil er mwyn cwmpasu dysgu awyr agored yn ei gyfanrwydd ac nid dim ond ei gyfyngu i arosiadau preswyl. Os na wneir hynny, mae'n awgrymu y dylai'r Bil gael ei ailenwi yn y Bil Addysg Awyr Agored Breswyl i adlewyrchu ei ffocws ac i osgoi ei ddehongli fel un sy'n cwmpasu addysg awyr agored yn fwy cyffredinol pan nad yw'n gwneud hyn.

Croesawodd **Comisiynydd Plant Cymru** y cynnig, gan nodi manteision addysg awyr agored i blant a phobl ifanc. Fodd bynnag, dywedodd y byddai'r Bil yn cael ei groesawu pe bai'n galluogi cyfleoedd ehangach i ddysgu yn yr awyr agored y tu hwnt i ddim ond y rhai o natur breswyl. Dywedodd y gall addysg awyr agored gymryd sawl ffurf, y mae rhai ohonynt yn cael eu darparu o fewn lleoliad yr ysgol a'r gymuned leol.

I rai, nid yw'r cynnig **yn mynd yn ddigon pell**. Dywedodd un ymatebwr y dylai'r Bil ddeddfu i wneud addysg awyr agored yn orfodol i bob oedran o fewn amserlen yr ysgol, tra bo un arall wedi dweud y dylai fod yn fwy eglur ynghylch sut y bydd yn cefnogi cysylltiadau â natur, dealltwriaeth o'r newid yn yr hinsawdd a lles personol. Mae Parc Rhanbarthol y Cymoedd yn cydnabod y gwerth mewn darparu wythnos ond mae'n credu y dylid rhoi blaenoriaeth i sicrhau newid systemig i ddarparu addysg awyr agored fwy rheolaidd ac ystyrlon yn gyffredinol.

Cyfeiriodd nifer o'r ymatebwyr at sut y mae canolfannau addysg awyr agored yng Nghymru yn darparu ar gyfer ysgolion o Loegr yn aml a phwysleisiodd y **dylai plant Cymru gael y profiad hwn**, yn enwedig pan fo yn eu gwlad/bro eu hunain.

Dywedodd Comisiynydd y Gymraeg fod gan y Bil y potensial i gynyddu'r **cyfleoedd i blant a phobl ifanc glywed a defnyddio'r Gymraeg**. Dywedodd y dylid cynnwys darpariaethau penodol i sicrhau bod hyn yn digwydd ac awgrymodd bedair prif ffordd y gellid gwneud hyn:

- Sylfaen ymchwil gadarn i ddeall capasiti'r sector i sicrhau darpariaeth Gymraeg neu ddwyieithog.
- Cyfleoedd i weithio ar lefel genedlaethol gyda'r Urdd, y maent yn dweud yw'r darparwr unigol mwyaf o bosibl.
- Cysylltu'r cynnig â strategaethau a pholisïau eraill Llywodraeth Cymru, er enghraifft addysg Gymraeg a gofynion cwricwlwm Cymru mewn perthynas â'r iaith.
- Gallai'r meini prawf achredu a chymeradwyaeth ar gyfer darparwyr gynnwys meini prawf mewn perthynas â hyrwyddo'r Gymraeg.

Croesawodd Dyfodol i'r Iaith y cynnig a nododd ambell gyfeiriad at y **Gymraeg a diwylliant Cymru,** ond hoffai weld y rhain yn cael eu nodi'n fwy amlwg. Mae'n galw am i'r Bil hyrwyddo profiad gwirioneddol Gymreig mewn gweithgareddau awyr agored ac yn cyfeirio at ymgyrch CAMU yng Ngogledd Cymru fel enghraifft o hyn.

Soniodd y Bartneriaeth Awyr Agored am ei **'Fframwaith Partneriaeth Awyr Agored - Dysgu Antur' (TOP-ALF)**, sy'n cael ei dreialu mewn ysgolion, fel model ar gyfer darparu dysgu yn yr awyr agored mewn ffordd sy'n cyd-fynd â chwricwlwm Cymru.

# Atodiad A: Cwestiynau'r ymgynghoriad

1. Pa mor bwysig yw addysg awyr agored i addysg a datblygiad cyffredinol plant a phobl ifanc?

☐ Pwysig iawn

☐ Eithaf pwysig

☐ Ddim yn gwybod

☐ Nid yw'n bwysig iawn

☐ Ddim yn bwysig o gwbl

2. Beth yw'r prif fanteision i blant a phobl ifanc o gael profiad o addysg breswyl yn yr awyr agored? Rhestrwch eich tri phrif fantais:

Cliciwch neu dapio yma i roi testun.

3. A ddylai plant a phobl ifanc gael cyfle sicr i gymryd rhan mewn profiad addysg breswyl yn yr awyr agored ar ryw adeg yn ystod eu blynyddoedd ysgol, os dymunant?

☐ Dylent

☐ Na ddylent

☐ Ddim yn gwybod

4. A ddylai cyfle i gymryd rhan mewn profiad addysg breswyl yn yr awyr agored, ar ryw adeg yn ystod eu blynyddoedd ysgol, fod yn rhad ac am ddim ar un achlysur i ddisgyblion?

☐ Dylai

☐ Na ddylai

☐ Ddim yn gwybod

5. Beth yw'r prif rwystrau sydd, yn eich barn chi, yn bodoli ar hyn o bryd i blant a phobl ifanc rhag cael mynediad i brofiadau addysg breswyl yn yr awyr agored? (ticiwch bob un sy'n berthnasol)

☐ Cyfyngiadau ariannol

☐ Rhesymau iechyd

☐ Anableddau

☐ Anghenion Dysgu Ychwanegol

☐ Pryder/ansicrwydd rhieni

☐ Pryder/ansicrwydd plant

☐ Arall (nodwch)

☐ Dim

6. Ystyriaethau cydraddoldeb:

A allai'r Bil arfaethedig gael unrhyw effaith cadarnhaol ar rai plant a phobl ifanc yn arbennig? Os felly, pwy a pham?

A allai'r Bil arfaethedig gael unrhyw effaith negyddol ar rai plant a phobl ifanc yn arbennig? Os felly, pwy a pham? Beth allai'r Bil hwn ei wneud i liniaru unrhyw effeithiau negyddol?

7. Yn eich barn chi, pa oedran sydd fwyaf addas i blant a phobl ifanc gael cynnig cyfle i ymgymryd â phrofiad addysg breswyl yn yr awyr agored?

☐ Blwyddyn 6 (10-11 oed)

☐ Iau (nodwch)

☐ Hŷn (nodwch)

☐ Ddim ar unrhyw oed

8. Ai pedair noson/pum niwrnod yw'r hyd gorau ar gyfer profiad awyr agored preswyl?

☐ Ie

☐ Nage

☐ Ddim yn gwybod

Eglurwch eich ateb ac amlygwch unrhyw oblygiadau posibl o gael agwedd safonol o brofiadau pedair noson/pum niwrnod (boed yn gadarnhaol neu'n negyddol).

9. Ydych chi'n cytuno bod angen deddfwriaeth i sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn cael cyfle i gael profiad addysg breswyl yn yr awyr agored, ar ryw adeg yn ystod eu blynyddoedd ysgol?

☐ Cytuno'n gryf

☐ Cytuno

☐ Ddim yn cytuno nac yn anghytuno

☐ Anghytuno

☐ Anghytuno'n gryf

10. A oes unrhyw beth arall yr hoffech ei ddweud am y cynnig hwn?